# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# Answers to Questions not reached in Plenary

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.
[R] signifies that the Member has declared an interest.
[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog
## Questions to the First Minister

### Adfywio Blaenau'r Cymoedd
### Regeneration of the Heads of the Valleys

**Q12 Christine Chapman:** What action is the Welsh Assembly Government taking to regenerate the Heads of the Valleys area? (OAQ39308)

**C12 Christine Chapman:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd er mwyn adfywio ardal Blaenau'r Cymoedd? (OAQ39308)

**The First Minister (Rhodri Morgan):** An announcement will be made by the Minister for Economic Development and Transport on 22 November concerning the regeneration of the Heads of the Valleys, linked to the £300 million investment in the A465.

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Bydd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth yn gwneud cyhoeddiad ar 22 Tachwedd ynglŷn ag adfywio Blaenau'r Cymoedd, sy'n gysylltiedig â'r buddsoddiad o £300 miliwn yn yr A465.

### Gwasanaethau'r Swyddfa Bost
### Post Office Services

**Q13 Peter Law:** What discussions has the First Minister had with the Post Office about its services in Wales? (OAQ39343)

**C13 Peter Law:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael â'r Swyddfa Bost ynghylch ei gwasanaethau yng Nghymru? (OAQ39343)

**The First Minister:** I met earlier this year with Allan Leighton, chairman of Royal Mail Group plc, to highlight the position of the Assembly Government on post office issues. The Minister for Social Justice and Regeneration is meeting the director of Welsh affairs for Royal Mail on 1 December to discuss postal services in Wales.

**Y Prif Weinidog:** Bu imi gyfarfod yn gynharach eleni ag Allan Leighton, cadeirydd Royal Mail Group ccc, i amlygu safbwynt Llywodraeth y Cynulliad ar faterion swyddfa post. Bydd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn cwrdd â chyfarwyddwr materion Cymreig y Post Brenhinol ar 1 Rhagfyr i drafod gwasanaethau post yng Nghymru.

### Gwaredu Ffonau Talu mewn Ardaloedd Gwledig
### The Scrapping of Pay Phones in Rural Areas

**Q14 Eleanor Burnham:** Will the First Minister make a statement on the scrapping of pay phones in rural areas? (OAQ39322)

**C14 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar waredu ffonau talu mewn ardaloedd gwledig? (OAQ39322)

**The First Minister:** I am very concerned at the implications that this will have across Wales. Pay phones provide a valuable service, which

**Y Prif Weinidog:** Pryderaf yn fawr ynghylch y goblygiadau a ddaw yn sgîl hyn ar draws Cymru. Mae ffonau talu yn wasanaeth gwerthfawr, sy'n

contributes to the safety, security and confidence of many people in our more isolated and disadvantaged communities. British Telecom has been consulting about the proposed removals, and I understand that it is now having detailed discussions with local authorities about each payphone for which a retention case has been made.

cyfrannu at ddiogelwch, diogeledd a hyder llawer yn ein cymunedau mwy ynysig a difreintiedig. Mae British Telecom wedi ymgynghori ar y gwaredu arfaethedig, a deallaf ei fod yn awr yn cynnal trafodaethau manwl ag awdurdodau lleol ynglŷn â phob ffôn talu y gwnaed achos i'w gadw.

**Cyswllt Ffermio**
**Farming Connect**

**Q15 David Davies:** What evaluation has the First Minister made of the Farming Connect scheme? (OAQ39394)

**C15 David Davies:** Pa waith gwerthuso y mae y Prif Weinidog wedi ymgymryd ag ef mewn perthynas â'r cynllun Cyswllt Ffermio? (OAQ39394)

**The First Minister:** The Welsh Assembly Government conducted a pause and review of the Farming Connect scheme last year, and identified a number of areas where the scheme could improve. The scheme has also been examined as part of the mid-term evaluations of both the Objective 1 programme and the rural development plan for Wales. It has always been the intention that the scheme would evolve to ensure best use of the resources available, and the lessons learned have already been taken into account in revising the scheme.

**Y Prif Weinidog:** Cynhaliodd Llywodraeth Cynulliad Cymru adroddiad oedi ac adolygu o'r cynllun Cyswllt Ffermio y llynedd, a nododd nifer o feysydd lle gellid gwella'r cynllun. Archwiliwyd y cynllun hefyd fel rhan o'r gwerthusiadau canol tymor o'r rhaglen Amcan 1 a'r cynllun datblygu gwledig ar gyfer Cymru. Y bwriad o'r dechrau oedd y byddai'r cynllun yn esblygu er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael, ac ystyriwyd y gwersi a ddysgwyd eisoes wrth ddiwygio'r cynllun.